

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Wrecsam

Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Wrecsam i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Roedd Wrecsam wedi cyflawni 9 o'r 12 hawl graidd yn llawn, wedi rhannol gyflawni 2, ac wedi methu â chyflawni 1.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Wrecsam wedi cyflawni 4 yn llawn, 4 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 2.

Mae pwysau cyllidebol yn parhau i gyfyngu ar ddatblygu gwasanaethau, ond mae cynnal lefelau'r gyllideb yn 2017-18 wedi galluogi cynnal perfformiad i raddau helaeth, gan gael gwelliannau mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, mae cynnydd amlwg yn nifer y bobl sy'n ymweld â'r llyfrgell, er bod lefelau defnydd cyffredinol yn parhau'n isel o gymharu. Mae'r gwasanaeth wedi mynd drwy gyfnod hir o ad-drefnu a newid; bydd datblygu Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd, a chyfnod parhaus o sefydlogrwydd ariannol a strwythurol yn rhan annatod o atgyfnerthu perfformiad a sicrhau gwelliant.

- Cyflwynodd Wrecsam dair astudiaeth achos yn dangos effaith y gwasanaeth. Roedd 80% o'r oedolion a holwyd yn credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.
- Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant a drefnwyd ymlaen llaw wedi gostwng dros 44%, a gostyngiad tebyg yn y nifer sy'n cael hyfforddiant anffurfiol, gan wrthdroi'r cynnydd a wnaed yn 2016-17.
- Bu cynnydd calonogol yn nifer yr ymweliadau â'r llyfrgell, yn y nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau llyfrgell, a nifer benthyciadau llyfrau, er bod lefelau'r defnydd ar y gwasanaeth yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru yn gyffredinol.
- Er na chyflawnwyd y targedau yn ymwneud â derbyniadau cyffredinol, mae gwariant ar adnoddau plant ac eitemau Cymraeg wedi cynyddu ac mae Wrecsam bellach yn cyrraedd y targedau ar gyfer adnoddau Cymraeg.
- Datblygiad i'w groesawu yw'r gwaith o osod Wi-Fi ym mhob man gwasanaeth, ynghyd ag uwchraddio / adolygu'r ddarpariaeth cyfrifiaduron er mwyn adlewyrchu'n well ddefnydd y cwsmeriaid arnynt.
- Mae lefelau staff cyffredinol wedi gostwng ymhellach yn 2017-18 ac maent bellach ymhlith yr isaf yng Nghymru, gyda staff proffesiynol yn is na lefel y canolrif.
- Bu cynnydd bach yng nghyfanswm yr oriau agor, ond mae'r hyn y mae Wrecsam yn ei gynnig yn hyn o beth yn dal i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac mae'n methu â chyrraedd y targed a osodwyd.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

2.1 Hawliau craidd

Mae Wrecsam yn cyflawni 9 o'r 12 hawl graidd yn llawn, yn rhannol gyflawni 2, ac yn methu â chyflawni un. Mae oriau agor yn parhau i fod yn is na'r targed a osodwyd yn Dangosydd Ansawdd 16 er gwaethaf cynnydd i'w groesawu ers 2016-17, ac nid yw'r gwasanaeth eto wedi cwblhau gosod y ddarpariaeth Wi-Fi ym mhob llyfrgell sefydlog. Er bod gan y gwasanaeth gynlluniau i ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell, nid yw hyn wedi'i gwblhau eto.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Wrecsam yn cyflawni 4 yn llawn, pedwar yn rhannol ac yn methu â chyflawni 2 o'r dangosyddion.

Dangosydd ansawdd	Cyflawni?
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:	Cyflawni'n rhannol
a) Cymorth TGCh	x
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓
c) Cymorth e-lywodraeth	✓
d) Datblygu darllenwyr	✓
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles	Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw	✓
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓
DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓ Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad manau gwasanaeth	✓ Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol	Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x
DA 10 Adnoddau Cymraeg	Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	✓
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	✓
DA 11 Mynediad ar-lein:	Cyflawni'n rhannol
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd	✓

Dangosydd ansawdd	Cyflawni?	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	x	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n rhannol
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	x	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	x	Heb ei gyflawni

O gymharu â blwyddyn olaf y bumed fframwaith, mae mwy o fuddsoddi wedi golygu bod DA 10 bellach wedi'i gyflawni'n llawn. Fodd bynnag, y llynedd darparodd Wrecsam gefnogaeth TGCh ym mhob man gwasanaeth sefydlog, felly mae DA 3 yn parhau i fod wedi'i gyflawni'n rhannol yn unig.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Wrecsam arolwg defnyddwyr i oedolion ym mis Tachwedd 2017 ac mae'n bwriadu cynnal arolwg plant naill ai yn hydref 2018 neu yng ngwanwyn 2019.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	<i>amherthnasol</i>		73%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	80%	6/7	38%	90%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	75%	17/17	75%	98%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Wrecsam dair astudiaeth achos o'r fath:

- Clwb Côd – clwb codio cyfrifiadurol wythnosol ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfle dysgu unigryw i gyfranogwyr (9-13 oed); gan hyrwyddo'r llyfrgell a'i gyfleusterau i'r plant a'u teuluoedd ac annog ymweliadau ychwanegol a mwy o ddefnydd ar y llyfrgell.

- Teuluoedd o Syria – sesiynau amser stori pwrpasol bob wythnos i gefnogi'r teuluoedd wrth iddynt ddysgu Saesneg; gan eu helpu i ddysgu am fywyd o ddydd i ddydd yn y Deyrnas Unedig; ehangu aelodaeth llyfrgell.
- Lite Arted – sesiynau celf misol i oedolion (yn dilyn cynnal gweithdy untro); gwella lles; annog ymweliadau ychwanegol a mwy o ddefnydd ar y gwasanaeth llyfrgell.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Wrecsam ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
DA 1 Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd:	63%	6/7	24%	83%	94%	
c) iechyd a lles	62%	5/7	33%	65%	95%	
d) lle diogel a chroesawgar	90%	7/7	90%	98%	100%	
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	91%	4/7	88%	91%	98%	
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	93%	7/7	93%	99%	100%	
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	74%	6/6	74%	86%	94%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	93%	7/7	93%	97%	99%	
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	<i>amherthnasol</i>		8.5	9.1	9.2	
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr fesul pen	61	6/22	10	32	238	110
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	15	22/22	15	199	473	31
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	200	13/22	82	228	684	149
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	2,690	20/22	2,501	4,047	7,014	2,632
b) rhith-ymweliadau fesul pen	571	15/22	243	866	2,211	602
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	131	17/22	100	154	229	111
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen *	73	11/22	4	68	663	
DA 11 Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul pen ^	14	2/22	5	9	14	14
c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	17%	21/22	14%	27%	67%	19%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau						

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	<i>amherthnasol</i>		3	31	196	<i>amherthnasol</i>
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	<i>amherthnasol</i>		40	1,346	11,939	<i>amherthnasol</i>
DA 14 Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£11,907	12/21	£7,047	£11,915	£17,771	£11,074
b) % ar staff	58%	14/21	44%	63%	75%	58%
% ar adnoddau gwybodaeth	11%	13/21	4%	13%	25%	13%
% ar offer ac adeiladau	11%	5/21	0%	4%	20%	5%
% ar gostau gweithredol eraill;	20%	8/21	0%	18%	37%	24%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	<i>amherthnasol</i>		£0	£338	£17,432	£0
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£2.24	4/21	£1.24	£1.82	£2.41	£3.27
DA 16 Oriau agor [#]						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	1.28%	21/21	0.00%	0.02%	1.28%	0.1%
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	1.49%	14/20	0.00%	0.35%	11.24%	1.3%

* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

^ am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Cynhaliodd Wrecsam arolwg defnyddwyr i oedolion yn ystod mis Tachwedd 2017. At ei gilydd, roedd 63% o oedolion yn credu bod y llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd ac roedd 93% wedi dweud bod y llyfrgell yn 'dda' neu'n 'dda iawn'. Bellach cynigir hyfforddiant i wella sgiliau digidol, llythrennedd, rhifedd a llythrennedd gwybodaeth ym mhob man gwasanaeth, er nad yw pedair llyfrgell nawr yn cynnig cymorth TGCh sylfaenol; priodolir hyn i doriadau yn y gyllideb. Caiff iechyd a lles ei gefnogi'n dda a chyflawnwyd y targed yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi a drefnwyd ymlaen llaw wedi gostwng dros 44%, ac mae dirywiad tebyg yn y niferoedd a gofnodir sydd wedi cael help drwy hyfforddiant anffurfiol, gan wrthdroi'r cynnydd a wnaed yn 2016-17.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Wrecsam yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, ac mae'n un o saith gwasanaeth llyfrgell sy'n cofnodi cynnydd yn nifer yr ymweliadau â safleoedd llyfrgell yn 2017-18, er bod nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd yn dal ymhlith yr isaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a gweithgareddau llyfrgell hefyd wedi codi; mae'r cynnydd hwn ynghyd â chynnydd yn y nifer sy'n ymweld â'r llyfrgell yn galonogol ar ôl cofnodi dirywiad yn 2016-17. Mae rhith-ymweliadau wedi gostwng eto, a hynny'n debyg i'r rhan fwyaf o wasanaethau eraill, gan adlewyrchu'r dewis sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd i gael

mynediad trwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac mae Wreccsam yn ymchwilio i ffyrdd o gofnodi ystadegau o'r cyfryngau cymdeithasol hyn. Mae benthyciadau llyfrau hefyd wedi cynyddu, ac mae lefelau benthyciadau clyweledol / lawrlwythiadau electronig yn parhau'n gryf, er bod lefelau defnyddio'r gwasanaeth yn dal yn is na chyfartaledd Cymru yn gyffredinol.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae effaith pwysau'r gyllideb ar y gronfa lyfrau yn dal i fod yn amlwg, gyda gostyngiadau pellach yn y gyllideb deunyddiau yn 2017-18, ac mae Wreccsam yn un o 13 awdurdod nad ydynt wedi cyrraedd y targedau derbyniadau cyffredinol. Fodd bynnag, mae gwariant ar adnoddau plant ac eitemau yn Gymraeg wedi cynyddu ac mae Wreccsam bellach yn cyrraedd y targedau ar gyfer derbyniadau adnoddau Cymraeg. Mae lefel uchel y ddarpariaeth cyfrifiaduron yn Wreccsam, ynghyd â'r duedd gyffredinol ledled y rhan fwyaf o Gymru o gael mwy o ddefnydd ar Wi-Fi, yn golygu bod lefelau defnyddio cyfrifiaduron yn arbennig o isel. Camau i'w croesawu yn y maes hwn yw'r bwriad i sicrhau bod mynediad Wi-Fi ar gael ym mhob man gwasanaeth, ynghyd â chynlluniau i uwchraddio / adolygu'r ddarpariaeth cyfrifiaduron er mwyn adlewyrchu defnydd cwsmeriaid yn well. Mae Wreccsam yn un o bum gwasanaeth llyfrgell nad yw'n cyrraedd y targed ar gyfer cyfran y ceisiadau sydd wedi'u cyflenwi o fewn pymtheg diwrnod. Dylid hefyd adolygu'r dull adrodd o dan DA 12, gan fod y ffigyrau ar gyfer 2017-18 yn adlewyrchu perfformiad yn ystod pedwerydd chwarter y flwyddyn yn unig.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staff cyffredinol wedi gostwng ymhellach yn 2017-18 wrth i ail-lunio'r gwasanaeth barhau, ac er bod nifer y staff cymwysedig wedi'u cynnal maent yn dal i fod yn is na'r canolrif ar gyfer Cymru fesul pen y boblogaeth. Nid yw'r targedau staffio wedi'u cyrraedd yn y meysydd hyn, gyda staffio cyffredinol ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae perfformiad yn erbyn y targed ar gyfer hyfforddiant staff / datblygiad proffesiynol wedi gwella, gyda'r ddwy elfen hon wedi'u cyflawni. Erbyn hyn, Wreccsam yw'r unig awdurdod yng Nghymru lle nad yw gwirfoddolwyr yn cyfrannu at waith y gwasanaeth, er y nodir bod cyflwyno rhaglen gwirfoddolwyr llyfrgell wrthi'n cael ei ystyried.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi cynyddu ychydig ers 2016-17, ac mae'n agos at y canolrif ar gyfer Cymru gyfan. Mae incwm hefyd wedi cynyddu dros 86%, ar ôl gostwng yn sylweddol yn y flwyddyn flaenorol. Mae'n galonogol bod y buddsoddiad yn y gwasanaeth wedi'i gynnal ac wedi cynyddu hyd yn oed yn 2017-18, ar ôl y dirywiad sylweddol yn y gyllideb ym mlwyddyn olaf y pumed fframwaith.

Cafwyd cynnydd bychan yng nghyfanswm yr oriau agor, ond mae'r hyn y mae Wreccsam yn ei gynnig yn hyn o beth yn dal i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru, ac mae'n methu â chyrraedd y targed a bennwyd. Roedd cau llyfrgelloedd sefydlog heb gynllunio gwneud hynny wedi digwydd oherwydd problemau â'r pŵer yn ystod gwaith adeiladu mewn un gangen, a phroblemau â cherbyd yn arwain at fethu nifer fach o arosfannau'r llyfrgell deithiol.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach

Llywodraeth Cymru. Adroddodd Wreccsam am amrywiaeth o gyfraniadau at Gynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam 2017-2022, ac i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys: annog pobl i ddysgu; cefnogi pobl i gyflawni eu potensial; gweithio gyda phartneriaid i wneud Wreccsam yn lle diogel; galluogi mynediad i weithgareddau hamdden a diwylliannol; a chyfrannu at gymunedau cysylltiedig a chynaliadwy.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, soniodd Wreccsam am yr her barhaus i ddarparu gwasanaeth llyfrgell gyhoeddus sy'n weladwy, yn hyfyw ac yn gynaliadwy. Tynnwyd sylw at gyfleoedd technolegau newydd, gyda chiosgau hunanwasanaeth i'w treialu mewn dwy lyfrgell, ac ystyried sut y gellir defnyddio technoleg llechen i wella arlwy'r llyfrgell i gwsmeriaid y gwasanaeth cyswllt cartref. Nodwyd hefyd fod datblygiadau yn y gwasanaeth i sicrhau ei fod yn diwallu disgwyliadau'r cyhoedd, gan gynnwys ailfodelu / ail-lunio brand Llyfrgell Wreccsam, ac ymarfer cwmpasu ar gyfer darpariaeth deithiol newydd.

6 Casgliad

Mae pwysau cyllidebol yn parhau i gyfyngu ar ddatblygu gwasanaethau, ond mae cynnal lefelau'r gyllideb yn 2017-18 wedi galluogi cynnal perfformiad i raddau helaeth, gan gael gwelliannau mewn nifer o feysydd. Er enghraifft, mae cynnydd amlwg yn nifer y bobl sy'n ymweld â'r llyfrgell, er bod lefelau defnydd cyffredinol yn parhau'n isel o gymharu. Mae'r gwasanaeth wedi mynd drwy gyfnod hir o ad-drefnu a newid; bydd datblygu Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd, a chyfnod parhaus o sefydlogrwydd ariannol a strwythurol yn rhan annatod o atgyfnerthu perfformiad a sicrhau gwelliant.